# Holiadur cyn arolygiad: tiwtoriaid, hyfforddwyr, aseswyr a staff cymorth (a gyflogir yn uniongyrchol gan y darparwr hyfforddiant)

Rhowch eich barn i ni am eich darparwr hyfforddiant, fel tiwtor, hyfforddwr, aseswr neu aelod o staff cymorth (h.y. staff nad ydynt yn addysgu).

Darllenwch bob brawddeg, meddyliwch am eich profiadau fel tiwtor, hyfforddwr, aseswr neu aelod o staff cymorth , ac yna dywedwch wrthym i ba raddau rydych chi'n cytuno trwy roi tic yn y blwch sy'n rhoi eich barn.

Os nad yw datganiad yn berthnasol i chi, neu nid ydych yn gyfarwydd ag ef, ticiwch y blwch 'Ddim yn gwybod'.

**Bydd eich ymatebion unigol yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Ni fyddwn byth yn datgelu eich sylwadau unigol i'r darparwr hyfforddiant nac i unrhyw un y tu allan i Estyn.**

**Holiadur i diwtoriaid, hyfforddwyr, aseswyr a staff cymorth dysgu Dysgu yn y gwaith**

***Enw'r bartneriaeth:*** __________________________________________

**Darparwr: _____________________________________________**

**Cwestiynau**

Os nad yw datganiad yn berthnasol i chi neu nid ydych yn gyfarwydd ag ef, ticiwch y blwch 'Ddim yn gwybod'.

| | **Dewiswch yr ateb mwyaf priodol (os nad yw cwestiwn yn berthnasol i'ch rôl, gadewch ef yn wag).** | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rwy'n gwbl ymwybodol o weithdrefnau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr ac yn deall sut i'w rhoi ar waith | | | | | |
| 2 | Rwy'n cael cymorth da gan uwch staff i reoli ymddygiad dysgwyr | | | | | |
| 3 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud os gwelaf neu os clywaf am unrhyw fwlio gan ddysgwyr | | | | | |
| 4 | Mae dysgwyr yn dangos lefel briodol o barch i mi | | | | | |
| 5 | Mae'r darparwr yn trefnu darpariaeth briodol ar gyfer fy natblygiad proffesiynol | | | | | |
| 6 | Rwyf wedi cael y cyfle i arsylwi arfer dda pobl eraill yn y darparwr ac ar draws aelodau'r consortiwm ac isgontractwyr lle bo'n briodol | | | | | |
| 7 | Rwyf wedi cael y cyfle i arsylwi arfer dda mewn darparwyr eraill | | | | | |
| 8 | Rwy'n deall blaenoriaethau strategol y darparwr | | | | | |
| 9 | Rwy'n gwybod beth allaf i ei wneud i gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol y darparwr | | | | | |
| 10 | Rwy'n cael cyfleoedd i gyfrannu at hunanasesiad y darparwr mewn ffordd bwrpasol | | | | | |
| 11 | Os caf broblemau yn y gwaith, gallaf siarad â'm rheolwr llinell amdanynt a chael cymorth priodol | | | | | |
| 12 | Credaf fod tystiolaeth glir fod y darparwr yn gwella ar gyflymder da | | | | | |
| 13 | Credaf fod y darparwr yn cael ei reoli a'i arwain yn dda | | | | | |
| 14 | Mae bod yn aelod o staff yn y darparwr hwn yn fuddiol yn broffesiynol | | | | | |

| |
|---|
| **Bydd eich ymatebion unigol yn cael eu cadw’n gyfrinachol. Ni fyddwn byth yn datgelu sylwadau unigol i’r darparwr nac i unrhyw un y tu allan i Estyn.** Os hoffech esbonio unrhyw rai o’ch ymatebion neu ychwanegu unrhyw sylwadau pellach, defnyddiwch y lle hwn. |

Os bydd unrhyw bryderon ynghylch diogelu, anfonwch neges e-bost atom: diogelu@estyn.llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 02920 446446

I gael gwybodaeth am y modd rydym yn ymdrin â data personol a roddir i ni, cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd: https://www.estyn.llyw.cymru/document/hysbysiad-preifatrwydd

Dychwelwch holiaduron mewn amlen wedi’i selio, i RHADBOST ESTYN